Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Corris**
**Y Caban**
**Ysgol Dyffryn Dulas**
**Corris**
**Machynlleth**
**SY20 9TQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Corris

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Corris |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Tegwen Brickley |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | D/B |
| Person â gofal | Hannah Jones |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 1 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Mawrth rhwng 08.45yb a 15.30yp, Dydd Mercher rhwng 11.30yb a 15.30yp a Dydd Iau rhwng 08.45yb a 11.45yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae Cylch Meithrin Corris yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28/06/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 27/02/2013 |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 16 a 17 Gorffennaf 2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Barn** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Darparu gwell cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn ymyrryd llai yng ngweithgareddau'r plant i hybu eu hannibyniaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn siarad neu'n mynegi ei hun yn hyderus trwy gydol y sesiwn, ac yn cyfathrebu eu hanghenion yn dda. Er enghraifft, mae plant sy'n gofyn am gael defnyddio'r toiled yn gwneud hynny ar unwaith. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol, er enghraifft mae'r plant eu hunain yn dewis eu bwydlenni byrbryd iach dyddiol. Mae bron pob plentyn yn dewis yr hyn y maent eisiau ei wneud a chyda phwy y maent eisiau chwarae yn llwyddiannus.

Mae bron pob plentyn yn ymgartrefu'n dda ac yn cyrraedd gyda gwên ar eu hwynebau cyn mynd ati i chwarae. Mae'r rhan fwyaf yn fodlon ac yn teimlo'n ddigon hyderus i rannu stori am yr anifail anwes sydd ganddynt gartref gyda'u ffrindiau ac ymarferwyr yn ystod amser grŵp. Maent yn magu ymdeimlad cryf o berthyn gan fod eu gwaith celf lliwgar yn cael ei arddangos ar waliau'r ystafell chwarae ac mae ganddynt eu pegiau unigol eu hunain ar gyfer eu cotiau a'u bagiau. Mae mwyafrif y plant yn gyfarwydd â threfn feunyddiol y lleoliad sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Er enghraifft, maent i gyd yn helpu i baratoi at fynd allan i chwarae yn yr haul ac yn gwisgo hetiau ac eli haul cyn mynd. Mae'r bron pob plentyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, er enghraifft gyda'r rhai sy'n gadael i gychwyn ysgol, yn dathlu eu hamser a'u cyflawniadau yn y lleoliad mewn seremoni graddio.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhygweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd ac yn deall y rheolau ar gyfer ymddygiad derbyniol yn dda. Er enghraifft, maent yn gwybod bod angen eistedd i lawr i fwyta ac yn dweud 'plîs' a 'diolch' pan bo'r angen. Mae bron pob plentyn yn dangos caredigrwydd tuag at ei gilydd, er enghraifft wrth rannu'r mafon maent yn gasglu yn yr ardd gyda'u ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, gan ddangos llawer o ddiddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, maent yn mwynhau pysgota am hwyaid yn y twb dŵr ac yn paentio a llunio siapiau gwahanol gyda sialc yn yr awyr iach. Maent wrth eu boddau yn canu gwahanol ganeuon amser grŵp gyda phob un yn chwerthin ar ôl y gan.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol yn dda. Er enghraifft, maent yn helpu gyda chyfrifoldebau penodol yn ystod yr amser byrbryd ac yn golchi platiau a chwpanau eu hunain ar ôl bwyta. Maent yn datblygu eu synhwyrau ac yn dewis perlysiau i gymysgu yn y gegin fwd yn llwyddiannus. Mae bron pob plentyn yn defnyddio eu dychymyg ac yn ymestyn eu hiaith yn effeithiol trwy lunio storïau wrth chwarae gyda'u ffrindiau ac ymarferwyr.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r holl ymarferwyr yn brofiadol a chymwys ac yn deall yn llwyr eu rolau a'r weithdrefn i ddilyn pe byddai ganddynt bryderon am unrhyw blentyn yn eu gofal. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan ymarferwyr gymwysterau perthnasol i'w galluogi i ymdrin â man anafiadau'n briodol ac maent yn cofnodi'r wybodaeth angenrheidiol yn y llyfr damweiniau. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hybu ffordd iach o fyw, gan hybu'r plant i frwsio'u dannedd yn ddydiol a thrwy darparu byrbrydau iach a maethlon. Maent yn dilyn gweithdrefnau priodol, er enghraifft drwy sicrhau bod y byrddau'n cael eu glanhau cyn ac ar ôl amser bwyd ac yn dilyn yr ymarfer disgwyliedig ar gyfer newid clytiau. Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda ac mae'r cymarebau staffio uwchlaw'r safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn polisi'r lleoliad ac yn gosod esiampl dda iawn o ymddygiad cadarnhaol drwy fanteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Mae gan y lleoliad drefniadau beunyddiol sefydledig sydd yn cadw plant yn ddiwyd a phrysur. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cadw sylw'r plant sydd eisoes wedi golchi eu dwylo trwy ofyn iddynt ddod o hyd i'w henwau ar y bwrdd cyn eistedd i lawr. Mae'r ymarferwyr yn dyner iawn yn eu hymagwedd. Maent yn dangos cynhesrwydd a hoffter go iawn tuag at y plant, ac adlewyrchwyd hyn yn y ffordd mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac â'r ymarferwyr.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n eithriadol o dda fel tîm ac yn llwyddo i hybu datblygiad cyffredinol y plant ac yn sicrhau eu bod yn diwallu eu hangenion unigol. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod unrhyw alergedd sydd gan blentyn yn cael ei rannu er mwyn rhoi'r gofal sydd angen iddynt. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n gweddu i oedrannau a chamau datblygu'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn galluogi plant i adnabod a dysgu enwau'r adar sy'n byw o'n gwmpas. Maent yn cadw cofnod o gynnydd y plant yn effeithiol er mwyn cynllunio gweithgareddau addas ar eu cyfer sy'n targedu medrau penodol yn ôl yr angen.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n ddiwyd er lles y plant. Mae disgwyliadau uchel ganddynt ac maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu trwy heriau ymarferol. Enghreifftiau da yw creu nythod gwlân a defnyddio mintys fel cynhwysyn yn y gegin fwd. Mae'r ymarferwyr yn holi'r plant yn dda, sy'n effeithio'n gadarn ar wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, maent yn ymyrryd yn ormodol yn ystod gweithgareddau, sy'n cyfyngu ar ddysgu annibynnol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio profiadau dysgu pwrpasol, sy'n targedu diddordebau'r plant yn gadarnhaol tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r gweithgareddau effeithiol hyn yn cynnwys heriau i ddatrys problemau trwy gyfatebu hwyaid i siapiau ac i greu marciau llachar gyda phaent.

Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas iddynt ddefnyddio teganau a llechi electronig. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth TGCh yn herio'r plant yn ddigon effeithiol i wella'u medrau TGCh cynnar. Mae'r ymarferwyr yn cymell cydweithredu'n effeithiol trwy ganolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant. Er enghraifft, maent yn eu hannog i yrru'n fywiog ar feiciau a chwarae rôl mewn acwariwm dychmygol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn canolbwyntio'n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geiriau ac ymadroddion cyson, a chanu hwiangerddi bywiog. Mae'r arferion rheolaidd yn cefnogi'r plant i ddeall cyfarwyddiadau'r ymarferwyr ac i ymateb yn addas yn y Gymraeg. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus, trwy ddathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi, er enghraifft.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant, ac i ddathlu amrywiaeth trwy astudio bwydydd o wledydd tramor. Gwneir defnydd buddiol o ymwelwyr ac ymweliadau. Enghreifftiau da yw ymweliad gan geidwad gwenyn, sy'n cynhyrchu mêl, a thaith i'r swyddfa bost i bostio llythyron. Mae'r cyfleoedd hyn yn creu ymwybyddiaeth gadarn o bobl eu cymuned a'u milltir sgwâr.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol. Mae'r canfyddiadau yn cyfatebu'n ddibynadwy â deilliannau'r plant ac mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. O ganlyniad, maent yn herio'r plant tuag at y camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn cynnal cyfarfodydd defnyddiol gyda rhieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu adroddiadau priodol iddynt, sy'n adlewyrchu cyflawniadau eu plant yn dda.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer y plant. Maent yn cwblhau gwiriadau diogelwch ac yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae a dysgu yn lân. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel bod pawb yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd cyfan yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae sy'n hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn yr awyr agored yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac wedi'u cynllunio'n llwyddiannus i annog y plant i chwarae a dysgu. Er enghraifft, maent yn newid themâu y tŷ darllen yn ystod y flwyddyn i gadw diddordeb y plant. Mae arweinwyr yn creu amgylchedd cynnes a chroesawgar, gydag arwyddion Cymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o'r iaith Gymraeg yn dda. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ymdeimlad o berthyn yn eu hamgylchedd gyda gwaith lliwgar y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol ar waliau'r ystafell chwarae.

Mae'r ardaloedd chwarae wedi'u gosod i hyrwyddo profiadau chwarae a dysgu pob plentyn yn fuddiol. Rhoddir ystyriaeth ofalus i sicrhau bod yr adnoddau'n ennyn diddordeb y plant ac yn hyrwyddo eu chwilfrydedd naturiol i ddysgu drwy chwarae yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r holl offer sydd ar gael yn y byd bach yn denu sylw'r plant yn syth iddynt cyrraedd ac maent yn mynd ati i chwarae'n dychmygus gyda'i gilydd. Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau masnachol, cartref ac wedi'u hailgylchu i ysbrydoli ac ysgogi'r plant yn gadarn. Er enghraifft, defnyddir rîl cebl pren fel bwrdd bach a sosbenni i blant greu sŵn a cherddoriaeth.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gwahanol blanhigion sy'n gael eu tyfu ganddynt yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu synhwyrau blasu, arogli a chyffwrdd yn effeithiol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn llywio cyfeiriad pwrpasol i waith y lleoliad. Mae ei gweledigaeth ddeallus yn sicrhau profiadau difyr ac ysgogol i'r plant, sy'n effeithio'n dda ar eu lles a'u dysgu.

Mae'r profiadau, y cynllunio o weithgareddau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n drylwyr ar fodloni anghenion y plant yn llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gyda'r ymarferwyr ymroddgar ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran eu hunain a'r plant. O ganlyniad, maent yn llwyddo i wella lles y plant yn effeithiol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn treiddio trwy arferion y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd, rhieni a gofalwyr, y plant ac asiantaethau allanol. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu'r plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar wella agweddau angenrheidiol sydd angen eu newid. Er enghraifft, maent yn gwrando ar rieni a gofalwyr ac yn gweithredu ar y canfyddiadau, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth iddynt.

Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn gefnogol. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau, goruchwyliadau a thrafodaethau cyson. Mae ganddynt drefniadau effeithiol i fonitro deilliannau'r plant a'r ddarpariaeth. Maent yn defnyddio gweithdrefnau meintiol a chynhwysfawr i adnabod eu cryfderau a'r materion i'w gwella. Mae trylwyredd y gweithdrefnau hyn yn sicrhau targedau effeithiol yn y cynllun datblygu sydd yn arwain at newidiadau pwrpasol i'r dyfodol, fel gosod cyfleoedd da i'r plant i ddatrys problemau.

Mae'r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau yn fwriadus. Gwneir hyn trwy sicrhau digon o ymarferwyr cymwys, sydd yn cael hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Yn ogystal, mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r cynllun datblygu yn ddeallus. O ganlyniad, mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio parod gyda'r awdurdod lleol i ddefnyddio grantiau yn ddoeth, i hyrwyddo gwell profiadau i'r plant trwy gyllido cyfarpar synhwyraidd newydd.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol, fel y rhieni, sy’n cefnogi trwy ddatblygu’r ardal allanol a’r ardaloedd tyfu.  Mae’r ymarferwyr yn gweithio’n llwyddiannus gyda’r holl bartneriaid i wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant.  Er enghraifft, maent yn gwrando’n synhwyrol ar awgrymiadau swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i wella’r ddarpariaeth.  Yn ogystal, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda’r ysgol gyfagos wrth i blant drosglwyddo i’r cam nesaf yn eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/09/2019